Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

**Ysgol Ciliau Parc**
**Ciliau Aeron**
**Llanbedr Pont Steffan**
**Ceredigion**
**SA48 8BX**

**Dyddiad yr arolygiad: Ebrill 2018**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Ciliau Parc

Lleolir Ysgol Ciliau Parc ym mhentref Ciliau Aeron, sydd rhwng Aberaeron a Llanbedr Pont Steffan, yn awdurdod lleol Ceredigion. Mae 84 disgybl rhwng 4 ac 11 oed ar y gofrestr. Cymraeg yw prif gyfrwng gwaith a bywyd yr ysgol.

Dros dreigl tair blynedd, mae ychydig dros 3% o'r disgyblion yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim. Mae hyn yn sylweddol is na'r ganran genedlaethol, sy'n 19%. Mae 38% o'r disgyblion yn siarad Cymraeg gartref ac ychydig iawn sydd o gefndir lleiafrifol ethnig.

Mae'r ysgol wedi adnabod 24% o'i disgyblion fel rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, ond nid oes un ohonynt â datganiad o anghenion addysgol arbennig. Mae'r ganran sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn ychydig uwch na'r ganran genedlaethol, sy'n 21%.

Penodwyd y pennaeth i'w swydd ym mis Medi 2017 ac arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym mis Tachwedd 2011.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iath=cym

## Crynodeb

Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae llawer o'r disgyblion yn cyflawni'n dda wrth iddynt gaffael medrau cyfathrebu Cymraeg pwrpasol, gan ystyried eu mannau cychwyn. Mae medrau'r rhan fwyaf yn datblygu'n effeithiol mewn Saesneg, rhifedd, a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh).

Mae'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn datgan clod i staff yr ysgol am eu gofal synhwyrol. Ar y cyfan, maent yn ofalgar o'i gilydd ac yn parchu eu cyfoedion ac oedolion.

Mae'r ysgol yn darparu amrediad cyfoethog o brofiadau dysgu i ddatblygu medrau'r disgyblion. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu ymwybyddiaeth y disgyblion o'u milltir sgwâr, a'u hanes a threftadaeth, yn dda iawn.

Mae'r addysgu a'r asesu yn gadarn ar y cyfan ac mae'r gweithdrefnau i olrhain cynnydd y disgyblion yn drwyadl. Mae'r athrawon a'r cymorthyddion yn ymateb yn fwriadus i anghenion unigolion bregus ac yn darparu gofal ac arweiniad gofalus a theyrngar iddyn nhw a'u rhieni.

Mae gweledigaeth y pennaeth a'r llywodraethwyr yn bwrpasol. Mae'r amcanion strategol yn ffocysu'n uniongyrchol ar wella'r ddarpariaeth er mwyn effeithio'n gadarn ar safonau, lles a Chymreictod y disgyblion.

| **Maes arolygu** | **Barn** |
|---|---|
| **Safonau** | **Da** |
| **Lles ac agweddau at ddysgu** | **Da** |
| **Addysgu a phrofiadau dysgu** | **Da** |
| **Gofal, cymorth ac arweiniad** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Argymhellion

A1 Sicrhau bod cyflwyniadau effeithiol i wersi yn gyson ar draws yr ysgol, gan gynnwys strategaethau asesu ar gyfer dysgu

A2 Herio’r disgyblion mwyaf galluog i berfformio ar eu gorau’n gyson

A3 Gwella safonau llawysgrifen a chyflwyniad gwaith disgyblion

A4 Sicrhau bod yr holl ddisgyblion yn defnyddio’r prif gyfrwng ieithyddol yn ystod gwersi

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i’r afael â’r argymhellion o’r arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

**Safonau: Da**

Lleiafrif y disgyblion sy'n cychwyn yr ysgol â medrau cyfathrebu Cymraeg sy'n cyfateb i'r safon a ddisgwylir am eu hoed. Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae llawer yn caffael medrau cyfathrebu Cymraeg effeithiol ac yn cyflawni'n gadarn. Mae'r disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd da yn erbyn eu targedau personol.

Mae llawer o'r disgyblion yn cyflawni'n dda wrth ddatblygu eu medrau llafar a gwrando. Yn fuan yn y dosbarth derbyn, maent yn deall bod gwrando'n astud ar oedolion ac ar ei gilydd yn rhan bwysig o fywyd ysgol. O ganlyniad, wrth iddynt symud drwy'r ysgol, mae llawer yn sgwrsio'n ddeallus a huawdl am eu gwaith. Er enghraifft, mae disgyblion y cyfnod sylfaen yn esbonio'n glir pam maent yn dewis lliwiau gwahanol i efelychu tirlun Yr Wyddfa gan arlunydd o Gymru. Fodd bynnag, mae lleiafrif o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn siarad Saesneg yn ystod gwersi cyfrwng Cymraeg. Mae medrau llafar Saesneg rhan fwyaf y disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn aeddfed, yn enwedig wrth iddynt ddadlau gyda'i gilydd am hawliau morfilod mewn caethiwed.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu medrau darllen effeithiol. Yn y cyfnod sylfaen, maent yn darllen ystod eang o destunau yn y Gymraeg yn eglur. Mae'r rhan fwyaf yn trafod cynnwys eu llyfrau'n frwdfrydig. Maent yn adeiladu geiriau anghyfarwydd yn hyderus trwy ddefnyddio strategaethau ffonig pwrpasol. Maent yn feddylgar wrth nodi hoff gymeriadau, gan gynnig rhesymau doeth am eu teimladau wrth ymateb i straeon. Mae rhan fwyaf y disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn darllen yn ystyrlon yn y ddwy iaith. Maent yn mwynhau llyfrau ffuglen a ffeithiol, ac yn ymchwilio'n gydwybodol ar y we, gan gynnwys olrhain hanes yr hen drên yn Aberaeron. O ganlyniad, maent yn ymarfer eu medrau darllen uwch yn effeithiol i ddarganfod gwybodaeth o wahanol ffynonellau.

Mae llawer o'r disgyblion ar draws yr ysgol yn ysgrifennu'n bwrpasol at wahanol ddibenion mewn ystod o gyd-destunau. Yn y cyfnod sylfaen, mae'r rhan fwyaf yn ysgrifennu darnau diddorol a chywir yn y Gymraeg. Mae enghreifftiau da yn cynnwys disgrifiad o ŵyl Hindŵaidd a hanes y lleidr ffordd lleol, Twm Siôn Cati. Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf yn ysgrifennu'n estynedig ac ystyrlon yn y ddwy iaith i ystod eang o bwrpasau. Er enghraifft, maent yn cymharu chwedlau Cymru a gwlad Groeg yn feddylgar ac ystyried cyflymder parasiwtau sy'n hedfan dan effaith disgyrchiant. Fodd bynnag, nid yw lleiafrif y disgyblion uwch eu gallu yn ysgrifennu cystal ag y gallant. Yn ogystal, nid yw llawysgrifen a chyflwyniad lleiafrif y disgyblion yn ddigon taclus.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd da mewn rhifedd. Maent yn cymhwyso'u gwybodaeth flaenorol mewn sefyllfaoedd newydd ar draws y cwricwlwm yn effeithiol. Enghraifft dda o hyn yw'r ffordd y mae disgyblion y cyfnod sylfaen yn cymharu tymheredd gwledydd Ewrop ac Asia a nodi'r gwahaniaethau rhyngddynt ar adegau penodol o'r flwyddyn.

Mae gan ran fwyaf y disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 ddealltwriaeth gadarn o sut i ddefnyddio data yn gynyddol gywir a'i gyflwyno mewn amrywiol ffurfiau. Mae rhan fwyaf y disgyblion hŷn yn deall bod angen defnyddio graffiau gwahanol i gyfleu gwybodaeth wyddonol yn effeithiol. Er enghraifft, maent yn creu graff llinell i adlewyrchu tymheredd dŵr sy'n oeri. Yn ogystal, maent yn defnyddio cyfeiriannau yn ddeallus wrth ddilyn rhediad afon Aeron heibio tirnodau lleol. Mae rhan fwyaf disgyblion cyfnod allweddol 2 yn cyflawni tasgau a chymhwyso'u medrau rhifedd estynedig yn llwyddiannus.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn y cyfnod sylfaen yn defnyddio offer TGCh yn hyderus. Er enghraifft, maent yn defnyddio'r sgrîn werdd yn dda i gymharu maint plentyn â thrychfilod. Mae llawer yn animeiddio'n llwyddiannus wrth greu cyflwyniadau electronig â phypedau. Mae rhan fwyaf y disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn arddangos medrau TGCh cadarn, gan gymhwyso'u medrau'n ddestlus a dethol y dulliau mwyaf effeithiol i gyflwyno'u gwaith. Er enghraifft, maent yn defnyddio basau data i gofnodi arwyr chwedlonol Cymru, er mwyn chwarae gemau â chardiau i gymharu eu rhinweddau. Mae llawer yn gwneud defnydd effeithiol o gyfrineiriau diogel i gael mynediad i wefannau dysgu diogel i gyflawni eu gwaith yn y dosbarth ac adref.

**Lles ac agweddau at ddysgu: Da**

Mae bron pob disgybl yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn gwybod beth i'w wneud petai rhywbeth yn eu poeni. Maent yn derbyn cyfrifoldebau yn frwdfrydig. Maent yn ofalgar o'i gilydd ac yn cyfrannu'n llawn wrth geisio sicrhau bod eu cyfoedion yn hapus. Maent yn oddefgar a sensitif i anghenion a dyheadau disgyblion eraill ac mae'r disgyblion hŷn yn derbyn arweiniad ar sut i gefnogi grwpiau penodol o ddisgyblion, gan weithredu hyn yn gydwybodol. O ganlyniad, mae gan y rhan fwyaf ymwybyddiaeth gadarn o gydraddoldeb a phwysigrwydd cyfle cyfartal.

Mae'r 'Llysgenhadon Gwych' yn ymateb yn frwdfrydig i egwyddorion hawliau plant, gan sicrhau bod safbwyntiau a syniadau'r disgyblion yn cael sylw teilwng a'u gwerthfawrogi. Yn ogystal, maent yn cynnal 'Mainc Ffrindiau' i drafod pryderon disgyblion ar y buarth. O ganlyniad, mae gan ran fwyaf y disgyblion ymwybyddiaeth glir o bwysigrwydd trin pawb gyda pharch a chwrteisi.

Mae ymddygiad bron pob disgybl yn dda. Mae'r rhan fwyaf yn gwrtais, yn hyderus, ac yn ymateb yn gadarnhaol wrth gyfarfod pobl eraill. Maent yn siarad yn aeddfed, gan fynegi eu barnau'n glir ac yn rhesymol.

Mae bron pob disgybl yn deall pwysigrwydd bwyta ac yfed yn iach, ac yn cymryd rhan mewn gweithgareddau ymarfer corff gydag awch a brwdfrydedd, er enghraifft drwy gymryd rhan mewn sesiynau beicio dan ofal un o'r cymorthyddion. Mae bron pob un disgybl yn deall pwysigrwydd diogelwch ar-lein, yn unol â'u hoed, ac yn amlinellu peryglon all godi yn sgîl defnydd anaddas o'r we.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn gweithio'n aeddfed fel unigolion, mewn parau a grwpiau. Maent yn trafod eu gwaith yn hyderus ac yn cyfrannu'n ddeallus at y cam nesaf yn eu gwaith. Mae bron pob un yn barod i ddysgu ar gychwyn gwersi, sy'n cefnogi eu dysgu'n bwrpasol. Mae llawer o ddisgyblion yn cyfrannu'n dda at yr hyn maent yn ei ddysgu yn ystod gweithgareddau. Mae bron pob un yn ymwybodol o sut

i werthuso'u gwaith eu hunain ac yn dangos dealltwriaeth gadarn o hyn yn y gwersi. O ganlyniad, maent yn deall eu cryfderau a'r meysydd sydd angen eu gwella yn effeithiol.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwrando'n astud ar gyflwyniadau ac yn datblygu medrau meddwl effeithiol. Er enghraifft, yn y cyfnod sylfaen, maent yn adeiladu fferm ar y cyd yn effeithiol ac yn creu stablau, twlc mochyn a chaeau i'r defaid gan ddeall nodweddion ffermydd lleol a'u defnydd dyddiol yn dda. Mae bron pob un disgybl yng nghyfnod allweddol 2 yn ymroi i brofiadau a syniadau newydd ac anghyfarwydd yn fedrus. Maent yn aml yn cyfrannu syniadau a chwestiynau creadigol ar gyfer gweithgareddau sydd ynghlwm â'r thema, fel bywyd cefn gwlad Cymru a phryderon am gadnoid. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn wybodus am nodweddion gwledydd a diwylliannau eraill. Maent yn dangos adnabyddiaeth dda o nodweddion arbennig gwledydd tramor fel diwylliant Cymreig Patagonia a manylion perthnasol ynglŷn â'r Hajj.

Mae gan ran fwyaf y disgyblion ddealltwriaeth gadarn o'u rolau arwain o fewn yr ysgol. Maent yn gydwybodol ac yn cymryd eu cyfrifoldebau o ddifrif fel aelodau o'r cyngor ysgol a'r pwyllgor eco. Yn ychwanegol, mae'r 'Dewiniaid Digidol' yn chwarae rôl allweddol wrth gefnogi disgyblion eraill mewn gwersi, er enghraifft wrth helpu creu bas data a thaenlenni ar gyfer adnabod creaduriaid y môr.

**Addysgu a phrofiadau dysgu: Da**

Mae'r athrawon a'r cymorthyddion yn darparu cwricwlwm sydd yn ennyn diddordeb bron pob un disgybl yn llwyddiannus. Maent yn cynllunio ystod o brofiadau gwerthfawr sydd yn adlewyrchu natur a chyd-destun lleol yr ysgol yn llwyddiannus iawn. Maent yn darparu cyfleoedd eang ac ysgogol i'r disgyblion ddysgu am ddiwylliant a hanes Cymru a'r ardal leol, fel hanes ymfudwyr yr ardal i Ohio yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Mae hyn yn arfer dda iawn, sy'n codi ymwybyddiaeth y disgyblion o'u cynefin yn sylweddol. Mae'r ysgol yn annog y disgyblion i wrando ar gerddoriaeth gyfoes Gymraeg ac yn trefnu ymwelwyr i'r ysgol i gyfoethogi eu profiadau, gan gynnwys cyflwynwyr radio. O ganlyniad, mae'r disgyblion yn datblygu dealltwriaeth gadarn o'u hetifeddiaeth a'u Cymreictod.

Mae egwyddorion y cyfnod sylfaen wedi eu gwreiddio'n gadarn, ac mae'r cwricwlwm yn bodloni anghenion y disgyblion yn effeithiol. Mae'r athrawon yn gwneud y defnydd gorau o'r ardaloedd dan do cyfyng a'r ardal allanol i ddatblygu medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh y disgyblion yn bwrpasol. Er enghraifft, maent yn cynllunio cyfleoedd buddiol i'r disgyblion gymhwyso eu medrau llythrennedd trwy drafod cyflwr anifeiliaid yn y milfeddygfa. Mae'r athrawon yn cynnig cyfleoedd difyr i'r disgyblion gymhwyso eu medrau TGCh ar draws y cwricwlwm. Er enghraifft, maent wedi sgriptio, golygu a throsleisio ffilm o stori'r Pasg yn effeithiol.

Mae'r cwricwlwm yn cynnig profiadau difyr a diddorol i'r disgyblion trwy gyfrwng themâu effeithiol fel bywyd fferm a chefn gwlad. Mae arloesedd yr athrawon, trwy eu cynllunio doeth, yn hybu dysgu'r disgyblion ar draws yr ysgol. Enghreifftiau nodweddiadol yw gwaith y disgyblion gydag arlunwyr lleol ar brosiectau sy'n ymwneud â'u milltir sgwâr, chwedlau a gwisgoedd traddodiadol Cymreig. Mae'r gweithgareddau hyn yn cynnig cyfleoedd pwrpasol i'r disgyblion gyfrannu at eu dysgu eu hunain yn llwyddiannus, yn enwedig wrth iddynt fapio eu syniadau cyn cychwyn ar

thema yn y cyfnod sylfaen. Mae'r athrawon yn sicrhau dilyniant yn nysgu'r disgyblion o un flwyddyn i'r llall ac yn ymgorffori gofynion y fframwaith llythrennedd a rhifedd yn ddeallus i'r cynllunio tymor hir. O ganlyniad, mae'r cynllunio yn adeiladu'n grefftus ar fedrau cyfredol y disgyblion.

Ar y cyfan, mae ansawdd yr addysgu yn dda. Mae'r athrawon yn defnyddio dulliau addysgu cadarnhaol yn rheolaidd, sy'n effeithio'n bwrpasol ar safonau rhan fwyaf y disgyblion. Fodd bynnag, mewn ambell wers, mae gorarwain a rhediad araf y cyflwyniadau yn cyfyngu ar allu'r disgyblion, yn enwedig y mwyaf abl, i gyrraedd hyd eithaf eu gallu.

Mae'r athrawon a'r cymorthyddion dysgu yn cydweithio'n llwyddiannus ac yn cefnogi'r dysgu yn fwriadus trwy gynnig ymyrraeth amserol ac ysgogol. Mae'r berthynas waith gynhaliol sydd yn amlwg ymhob dosbarth yn meithrin parch a chwrteisi, ac yn creu naws ddysgu gynhyrchiol. Maent yn cynllunio'n effeithiol ar gyfer y disgyblion maent yn eu cefnogi, sy'n cynnwys disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. O ganlyniad, mae bron bob un disgybl yn gwneud cynnydd da yn erbyn eu targedau personol.

Mae'r holl oedolion yn modelu iaith raenus ac yn annog a chefnogi'r disgyblion i ddefnyddio Cymraeg safonol a chywrain yn gyson. O ganlyniad, mae safonau llafar llawer o'r disgyblion yn dda, gan ystyried eu mannau cychwyn. Yn y rhan fwyaf o ddosbarthiadau, maent yn holi'n gyson ac yn fedrus i ddatblygu ymhellach ymatebion a syniadau'r disgyblion.

Ar y cyfan, mae asesiadau'r athrawon yn ddilys, yn gywir ac yn ddibynadwy. Mae'r asesiadau dyddiol, fel arfer, yn gymorth defnyddiol i lywio'r camau nesaf ar gyfer dysgu'r disgyblion, er nad ydynt bob tro'n arwain at dasgau sy'n ddigon heriol ar gyfer disgyblion uwch eu gallu. Mae adborth llafar yr athrawon yn gymorth i ddisgyblion wybod pa mor dda y maent yn ei wneud a'r hyn sydd angen iddynt ei wneud i wella. Mae hyn yn sicrhau bod y disgyblion yn deall y camau sydd angen iddynt eu cymryd i wella'u gwaith trwy arferion asesu ar gyfer dysgu. Fodd bynnag, nid yw'r arferion gorau'n gyson ar draws yr ysgol.

### Gofal, cymorth ac arweiniad: Da

Mae'r athrawon a'r cymorthyddion yn hyrwyddo diwylliant, iaith a threftadaeth Cymru yn hynod effeithiol ar draws yr ysgol. O ganlyniad, mae gan y disgyblion falchder yn eu Cymreictod a thraddodiadau'r ardal. Mae'r ethos Cymraeg a Chymreig sy'n bodoli ym mywyd yr ysgol yn ymledu'n effeithiol i'r gymuned leol. Er enghraifft, mae'r disgyblion yn rhan bwysig o ddathliadau dau ganmlwyddiant ymfudiad teuluoedd lleol i dalaith Ohio yn yr Unol Daleithiau.

Mae disgyblion yn cael cyfleoedd gwerthfawr i ganu a pherfformio mewn cyngherddau ac i gystadlu mewn eisteddfodau lleol a chenedlaethol. Mae traddodiad yr ysgol o hybu diwylliannau Cymru a'r fro wedi ei hen sefydlu. Mae'n hyrwyddo defnydd y disgyblion o'r iaith a'u dealltwriaeth o'u diwylliant yn llwyddiannus. O ganlyniad, mae rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu eu medrau Cymraeg yn llwyddiannus trwy lefaru a chanu. Yn ogystal, mae'r cyfleoedd i ehangu profiadau creadigol y disgyblion trwy weithio gydag artist lleol i greu baneri ar chwedlau Ceredigion yn agwedd nodedig o'r gwaith. Mae'r profiadau hyn yn datblygu gallu creadigol, mynegiannol, hunanhyder a gallu'r disgyblion i weithio fel tîm yn effeithiol.

Mae gan yr ysgol berthynas gadarn, gefnogol a chydweithiol gyda rhieni. Mae polisi drws agored yn sicrhau bod cyfathrebu rhwng y rhieni a'r ysgol yn effeithiol iawn. Mae'r ysgol yn cyfathrebu'n dda â'r rhieni drwy gyfryngau cymdeithasol sy'n ddull buddiol a chyson o gysylltu a rhannu gwybodaeth. Mae'r ysgol yn barod i wrando ar safbwyntiau rhieni a'u hawgrymiadau ac yn eu hannog i chwarae rhan weithredol a llawn ym mywyd yr ysgol. Mae'r ysgol yn trefnu nosweithiau addysgiadol i rieni yn achlysurol. Enghraifft dda o hyn oedd y noson i gyflwyno diogelwch ar y we i rieni, er mwyn eu gwneud yn fwy ymwybodol o drefniadau a darpariaethau cyfredol yr ysgol.

Mae'r staff yn defnyddio systemau olrhain a monitro manwl er mwyn mesur cynnydd disgyblion. Maent yn cydnabod pwysigrwydd ymyrraeth gynnar ac yn rhoi cefnogaeth ofalgar i unigolion a grwpiau o ddisgyblion sydd ac anghenion dysgu ychwanegol. Mae'r athrawon a chymorthyddion dysgu yn cydweithio'n agos â'i gilydd i sicrhau arweiniad pwrpasol i ddisgyblion. Mae'r ysgol yn cydweithio'n agos ag amrywiaeth o asiantaethau allanol er mwyn darparu cefnogaeth werthfawr ac arbenigol i ddisgyblion. O ganlyniad, mae cynlluniau addysg unigol effeithiol ar waith i sicrhau bod unigolion yn gwneud cynnydd cadarn yn erbyn targedau mesuradwy a phenodol. Mae'r holl oedolion yn cefnogi disgyblion ag anghenion emosiynol a chymdeithasol yn fedrus ac yn darparu rhaglenni cymorth pwrpasol sy'n galluogi'r disgyblion i wneud cynnydd da.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau cadarn ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. O ganlyniad, mae gan ran fwyaf y disgyblion ddealltwriaeth glir o bwysigrwydd bywydau iachus. Mae cyfleoedd buddiol ar gael i ymgymryd â sesiynau ymarfer corff yn ystod gwersi a gemau buarth dan arweiniad y 'Llysgenhadon Efydd'. Mae'r trefniadau effeithiol hyn yn hybu'r awch a'r brwdfrydedd ymysg y disgyblion i gadw'n heini.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol a chymdeithasol disgyblion yn llwyddiannus. Mae'r staff yn annog y disgyblion i fod yn ddinasyddion cyfrifol sy'n barod i helpu eraill. Mae eu gwaith o fewn y gymuned yn cyfrannu'n effeithiol at hyn, fel ymweld â'r henoed a chasglu'n gyson tuag at elusennau lleol a chenedlaethol. Mae nifer o bwyllgorau gweithgar yn yr ysgol sy'n hybu llais y disgybl ac yn eu hannog i gymryd cyfrifoldebau a gwneud penderfyniadau doeth. Enghraifft nodedig o hyn yw gwaith y 'Llysgenhadon Gwych' sy'n amlygu'r cysyniad o hawliau'r holl blant ar draws yr ysgol.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da

Ers ei phenodiad, mae'r pennaeth wedi mireinio'r gweithdrefnau rheolaethol i adlewyrchu'r gofynion cyfredol. Mae ei gweledigaeth ar gyfer datblygu'r ysgol yn glir a gweithredol. O ganlyniad, mae amcanion strategol yr ysgol yn gadarn ac uchelgeisiol, a chanddynt ffocws penodol ar wella'r ddarpariaeth, safonau a lles disgyblion. Mae'r pennaeth yn hybu gwerthoedd ac ymddygiadau proffesiynol uchel, sy'n cyfrannu'n gadarnhaol at wella'r ysgol trwy gydweithrediad effeithiol yr holl staff.

Mae'r gweithdrefnau hunanarfarnu cyfredol yn drylwyr ac yn seiliedig ar dystiolaeth uniongyrchol a dibynadwy. Maent yn deillio o weithgareddau a gynhelir ar lawr y dosbarth a thrwy arferion parhaus yr ysgol. Mae'r pennaeth yn monitro gwelliannau

yn ofalus ac yn ymateb yn fanwl i flaenoriaethau'r cynllun datblygu yn rheolaidd. Mae'r gweithdrefnau cyson hyn yn cyfrannu at adnabod blaenoriaethau priodol i wella'r ddarpariaeth yn y dyfodol a sicrhau bod disgyblion yn cyflawni hyd eithaf eu gallu. Mae'r pennaeth wedi dosrannu cyfrifoldebau newydd i'r athrawon a'r cymorthyddion i sicrhau bod y gweithdrefnau ar gyfer gwelliant yn gwreiddio'n fuan ym mywyd dyddiol yr ysgol. Mae hyn yn eu galluogi i adnabod yn well y meysydd sydd angen eu datblygu, a chynllunio camau gweithredu effeithiol.

Mae gan y pennaeth weithdrefnau pwrpasol sy'n seiliedig ar dargedau'r cynllun gwella i gefnogi a herio athrawon a chymorthyddion. Nodir meincnodau a llinyn amser synhwyrol i fonitro a mesur llwyddiannau'r gweithgareddau hyn. O ganlyniad, mae'r staff cyfan yn ymateb i'w cyfrifoldebau penodol ac yn cyfrannu'n fwriadus tuag at wella safonau a medrau'r disgyblion. Mae'r trefniadau hyn yn arwain at welliannau'n llwyddiannus. Enghraifft gadarn o hyn yw'r modd mae'r athrawon wedi mabwysiadu a gweithredu'r polisi marcio newydd er mwyn targedu'n finiog welliannau yng ngwaith y disgyblion.

Mae cynlluniau'r ysgol ar gyfer datblygu'r holl staff yn cysylltu'n uniongyrchol â'r gweithdrefnau rheoli perfformiad effeithiol. Maent yn cyfoethogi eu datblygiad proffesiynol yn llwyddiannus. Mae hyn yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar fedrau ac arbenigedd unigolion. Er enghraifft, mae staff wedi derbyn hyfforddiant TGCh, ac wedi gweithio gyda swyddog rhanbarthol i ddatblygu gwyddoniaeth ar draws yr ysgol. Trwy dderbyn hyfforddiant a chyfarwyddo â'u cyfrifoldebau newydd, mae'r athrawon yn dechrau rhannu arferion da yn effeithiol ar draws yr ysgol. Mae hyn eisoes yn effeithio'n gadarnhaol ar fedrau TGCh, medrau gwyddonol a medrau creadigol y disgyblion.

Mae gan y llywodraethwyr wybodaeth gynhwysfawr am berfformiad a gwaith yr ysgol. Maent yn deall amcanion yr ysgol yn dda ac yn cyflawni eu cyfrifoldebau statudol yn effeithiol. Maent yn gweithredu'n bwrpasol fel cyfeillion beirniadol ac yn herio a dwyn yr ysgol i gyfrif am ei pherfformiad yn fedrus. Gwneir hyn trwy ymweliadau cyson i'r dosbarthiadau, craffu ar waith disgyblion, a chwrdd â'r arweinwyr sy'n gyfrifol am brif flaenoriaethau'r ysgol. Mae'r llywodraethwyr yn sicrhau bod yr ysgol wedi ei staffio'n briodol. Mae hyn yn cynnwys y cymorthyddion, sy'n cefnogi'r athrawon yn gadarnhaol iawn i godi safonau.

Mae'r arweinwyr yn mynd i'r afael â blaenoriaethau lleol a chenedlaethol yn fwriadus. Er enghraifft, maent yn dechrau cyflwyno egwyddorion y cwricwlwm newydd yn ddeallus, sy'n cynnwys tasgau cyffrous cymhwysedd digidol. Maent hefyd wedi dechrau gweithredu ar gyfer y bil anghenion dysgu ychwanegol yn effeithiol.

Mae'r pennaeth a'r llywodraethwyr yn gwneud defnydd pwrpasol o'r staff, yr adeilad a thir yr ysgol. Maent yn sicrhau bod y gyllideb a'r grantiau ychwanegol i ddatblygu'r ddarpariaeth, gwella safonau a chyfoethogi'r cwricwlwm yn cael eu gwario'n effeithlon. Enghraifft lwyddiannus o hyn yw'r defnydd bwriadus a wneir o warged yr ysgol i gyflogi athrawon ychwanegol i leihau maint dosbarthiadau a chyflogi cymhorthydd i gefnogi anghenion dysgu ychwanegol disgyblion. Mae'r ysgol yn monitro hyn yn dda trwy ganolbwyntio'n ofalus ar effaith y ddarpariaeth ar safonau'r disgyblion. Gwneir defnydd synhwyrol o'r grant datblygiad disgyblion i wella'r ddarpariaeth ac i godi safonau'r ychydig iawn o ddisgyblion sy'n gymwys i'w dderbyn. O ganlyniad, mae holl wariant yr ysgol yn cysylltu'n fwriadus â blaenoriaethau'r cynllun datblygu ysgol.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau |
| **Digonol ac angen gwelliant** | Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella |
| **Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

© Hawlfraint y Goron 2018: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 20/06/2018